

## Cyngor Adnewyddu'r Economi

### EFFAITH YR ADOLYGIAD AMDDIFFYN A DIOGELWCH STRATEGOL YNG NGHYMRU

#### 1. CEFNDIR

##### 1.1 Lluoedd Parhaol

Pennodd yr Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol weledigaeth i newid y cydbwysedd adnoddau o ran personél yn y Lluoedd Arfog. Noda'r strategaeth leihad yn nifer y lluoedd parhaol wedi'i wrthbwyso gan gynnydd yn nifer y milwyr wrth gefn. Mae'r Adolygiad wedi arwain at newidiadau sylweddol i strwythur a nifer y personél yn y Lluoedd Arfog.

Ledled y DU mae nifer y milwyr parhaol, yn ddynion a merched, yn cael ei leihau fel a ganlyn:-

Y Llynges Frenhinol - 5,000

Yr Awyrlu Brenhinol - 5,000

Y Fyddin - 20,000

Cwtogwyd eisoes ar nifer y personél yn y Llynges Frenhinol a'r Awyrlu Brenhinol. Yn y Fyddin, y gyfran ddiweddaraf o ddiswyddiadau ar gyfer personél y Fyddin yw 5,300 yn 2013 (fe'u hysbyswyd ym mis Mehefin 2013 a byddant yn gadael ym mis Rhagfyr 2013). Rhagwelir y bydd rhagor o ddiswyddiadau y flwyddyn nesaf.

Atodir y data pontio gan y 160fed Frigâd yn Atodiad A. Cesglir y data hyn o wybodaeth a ddarperir gan filwyr unigol, yn seiliedig ar eu barn ar un adeg benodol ac felly nid yw'n hollol gywir. Dylid bod yn ofalus os ystyrir defnyddio'r data hyn at ddibenion cynllunio.

##### 1.2 Lluoedd Wrth Gefn

Mae "Reserves in the Future Force 2020" yn nodi'r cynlluniau i integreiddio'r lluoedd wrth gefn â'r lluoedd parhaol. O ran niferoedd, mae gan y Fyddin 19,000 o filwyr wrth gefn ond mae angen 11,000 yn fwy gyda lwfans hyfforddi o 5,000. Bydd yr Awyrlu Cynorthwyol Brenhinol yn cynyddu i o leiaf 1,800 erbyn diwedd 2016, a bydd y milwyr Morol wrth gefn yn cynyddu i 3,100 o forwyr a môr-filwyr.

##### 1.3 Lluoedd Arfog a Leolir yng Nghymru ar hyn o bryd

Niferoedd a leolir yng Nghymru (yn fras - bydd y niferoedd yn amrywio o ganlyniad i symud/ymfyddino unigolion) :

- 2780 o Filwyr llawn amser parhaol (y tri gwasanaeth) ym mis Ebrill 2012
- 1994 o Filwyr wrth gefn (Y Fyddin – 1866 yn 2011, Y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr - 128 yn 2013)

## **1.4 Adolygiad o Leoliadau**

Mae ailstrwythuro'r Lluoedd Arfog hefyd wedi arwain at adolygiad mawr o leoliadau, ac erbyn 2018 bydd milwyr wedi gadael yr Almaen. Yng Nghymru :-

- Bydd y 14eg Gatrawd Signalau (Rhyfela Electronig) yn symud o Farics Cawdor, Sir Benfro i safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn 2018, os cytunir ar y telerau rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Uwch-awyrendy yn Sain Tathan. Bydd hyn yn arwain at gau Safle Cawdor.
- Mae'r 71ain Sgwadron Archwilio a Thrwsio (IR) sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd yn Sain Tathan yn symud i RAF Wittering ar ddechrau 2013 ac ym mis Medi 2016 mae'r 4edd Ysgol Hyfforddiant Technegol yn symud i Lyneham.
- Bydd Pencadlys Cymru yn Aberhonddu gyda Phencadlys y 160fed Frigâd Troedfilwyr.

## **1.5 Adolygiad o'r Ystad Wrth Gefn**

Yng Nghymru, bydd nifer Unedau wrth Gefn y Fyddin yn cynyddu o 6 i 7. Bydd 19 o Ganolfannau'r Fyddin Dirioogaethol (TA) o hyd, ond caiff y Canolfannau TA yn Llandudno a Chaernarfon eu cau. Bydd y rhan fwyaf o'r rheini sy'n gwasanaethu yng Nghaernarfon yn gwasanaethu yng Nghanolfan TA Bae Colwyn. Caiff canolfan newydd ei chreu yng Nghaerdydd, ond nid yw ei lleoliad yn hysbys ar hyn o bryd.

## **2. GOBLYGIADAU I GYMRU**

- Yn aml nid yw set sgiliau y rheini sy'n colli eu swyddi yn hysbys ymlaen llaw, felly mae'n anoddach eu paru â galwadau o ran sgiliau yng Nghymru.
- Yr effaith ar gyflogwyr o ganlyniad i gynyddu nifer y Milwyr Wrth Gefn, gan gynnwys yr effaith ar fusnesau bach.
- Yr effaith ar yr economi leol o ganlyniad i gau Barics Cawdor.
- Yr effaith ar wasanaethau'r nifer gynyddol o bersonél sy'n byw yn ardal Sain Tathan.

## **3. BETH SY'N CAEL EI WNEUD I GEFNOGI'R RHAI SY'N COLLI EU SWYDD AC SY'N DYCHWELYD I GYMRU**

### **3.1 Rheoli'r Broses Bontio**

Mae 160fed Frigâd Cymru (Pencadlys ar gyfer y Fyddin yng Nghymru) wedi sefydlu Bwrdd Pontio, sy'n cynnwys aelodau o'r tri gwasanaeth, elusennau gwasanaeth a ffederasiynau teuluol, Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Maent wedi datblygu trefniadau pontio gwell yn seiliedig ar bum maes allweddol - Cyflogaeth Addysg Tai Iechyd Lles.

### **3.2 Cymorth pontio**

Yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, cynhaliodd y 160fed Frigâd ddigwyddiad y Lluoedd Arfog ar 25 Mehefin 2013 yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Roedd y digwyddiad yn cynnwys Ffair Bontio a chynhadledd i arweinwyr busnes. Nod y Ffair Bontio oedd gwella'r broses o gyfathrebu â'r rhai a oedd yn gadael y Lluoedd Parhaol a'u cyfeirio at yr help a'r adnoddau a oedd ar gael. Roedd darpar gyflogwyr yn bresennol. Daeth dros 700 o filwyr, yn ddynton a merched, i'r digwyddiad. Anelwyd ail elfen y digwyddiad at fusnesau Cymru er mwyn eu hysbysu am fanteision cyflogi'r rheini sy'n gadael y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd Wrth Gefn. Cynhelir digwyddiad arall yn Wrecsam ym mis Chwefror.

Mae gan y trydydd sector rôl bwysig i'w chwarae hefyd i gefnogi cyn-filwyr yng Nghymru. Mae Gwasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan wedi datblygu llwybr gofal cyffredin sy'n cydnabod rôl y Trydydd Sector wrth ddarparu cymorth i gyn-filwyr ac sy'n sefydlu'r Gwasanaeth fel 'Porthor', sy'n ganolog i asesu a rheoli cyn-filwyr â phroblemau iechyd meddwl.

Ym mis Rhagfyr cyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn yr elusennau hynny a lwyddodd i gael cyllid i gefnogi'r Lluoedd Arfog drwy Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog (Libor). Dyfarnwyd £2.5 miliwn i elusennau i gefnogi gwaith yng Nghymru, gan gynnwys bron £1 filiwn i Alabare Christian Care and Support a ddefnyddir i ddarparu cartrefi i gyn-filwyr digartref yng Nghymru ac i ariannu rhaglen o gymorth cyflogadwyedd arbenigol.

### **3.3 Cyfamodau Cymunedol Lleol**

Mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru bellach wedi llofnodi Cyfamodau Cymunedol. Nod y cyfamod cymunedol yw annog cymunedau lleol i gefnogi'r gymuned gwasanaethau yn eu hardal a meithrin dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog.

### **3.4 Cyfamod Corfforaethol**

Yn 2013 cyflwynodd y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd Gynllun Cyfamod Corfforaethol. Cyfamod corfforaethol yw addewid gwirfoddol gan fusnesau a sefydliadau elusennol sydd am ddangos eu cefnogaeth i gymuned y Lluoedd Arfog. Darperir dolen i dempled y Cyfamod Corfforaethol isod.

<https://www.gov.uk/government/publications/corporate-covenant-pledge>

Mae pob cyfamod corfforaethol yn cynnwys datganiad craidd o ymrwymiad y bydd y rheini sy'n mabwysiadu'r cynllun yn ymrwymo iddo. Mae hyn yn cwmpasu dwy egwyddor allweddol cyfamod y lluoedd arfog, sef:

- ni ddylai unrhyw aelod o gymuned y lluoedd arfog fod o dan anfantais o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol o'i gymharu ag unrhyw ddinesydd arall;
- mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd triniaeth arbennig yn briodol, yn enwedig i'r rheini sydd wedi eu hanafu neu sy'n galaru.

Mae'r cyfamod corfforaethol ar gyfer busnesau fel y gallant roi cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog, yn bennaf ond nid yn unig ar gyfer cyflogaeth. Yn ogystal â chefnogi dwy egwyddor allweddol cyfamod y lluoedd arfog, gall busnesau ddewis o blith amrywiaeth o ymrwymadau eraill y teimlant y gallant eu gwneud o bosibl. Er enghraifft, cymryd rhan yn Niwrnod y Lluoedd Arfog neu drwy ddisgowntiau penodol i aelodau o gymuned y lluoedd arfog. Efallai y bydd sefydliadau mwy o faint am geisio cyflogi milwyr wrth gefn oherwydd y sgiliau sydd ganddynt, neu byddant yn ceisio cefnogi cyflogaeth cyn-filwyr parhaol a'u gwŷr a'u gwragedd.

### **3.5 Strategaeth ar gyfer Milwyr Wrth Gefn yn y Dyfodol**

Ceir nifer o fesurau ar gyfer milwyr wrth gefn a chyflogwyr yn "Reserves in the Future Force 2020" sy'n cynnwys:

- cyflwyno gwyliau blynyddol â thâl ar gyfer y cyfnod hyfforddi yn ogystal â chyfnodau pan fyddant ar ymgyrchoedd; caiff hawliau pensiwn y Lluoedd Arfog, yn ystod y cyfnod hyfforddi ac ar ymgyrchoedd, o dan Gynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog, eu cyflwyno ym mis Ebrill 2015;
- hyfforddiant a mynediad gwell i'r cyfarpar a ddefnyddir gan filwyr parhaol cyfatebol; mynediad i wasanaethau iechyd amddiffyn allweddol yn ystod y cyfnod hyfforddi ac ar ymgyrchoedd;
- sgiliau trosglwyddadwy a chymwysterau academaidd; ymrwymiad hyfforddi Milwyr wrth Gefn y Fyddin o tua 40 diwrnod y flwyddyn, cynnydd o'r cyfartaledd presennol o 35;
- deddfwriaeth i sicrhau y gellir manteisio ar dribiwnlysoedd cyflogaeth mewn achosion diswyddo annheg yn erbyn milwyr wrth gefn, heb gyfnod cyflogaeth cymhwysol.

I gyflogwyr bydd:

- gwobr ariannol o £500 y mis, am bob milwr wrth gefn, i fusnesau bach a chanolig ar ben y lwfansau sydd eisoes ar gael pan gaiff eu cyflogeion sy'n filwyr wrth gefn eu hymfyddino;
- mwy o rybudd fel y gall cyflogwyr gynllunio ar gyfer absenoldebau eu cyflogeion sy'n filwyr wrth gefn;
- mwy o gydnabyddiaeth i gyflogwyr cefnogol blaenllaw;
- cynllun rheoli cydberthnasau cenedlaethol i atgyfnerthu ein cydberthynas â chyflogwyr mawr.

